



Cynllun Pwnc Proffesiynau Iechyd

Hydref 2018

CYMRÆG



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cyflwyniad a chyd-destun

Cyd-destun y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd. Mae 'Tuag at 2020 a thu hwnt' yn gynllun strategol sy'n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith gynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y Cynllun Academaidd cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu'r Coleg <http://bit.ly/2rtglxT>

Mae Cynllun Pwnc Proffesiynau Iechyd yn gosod yr egwyddorion a'r nodau hynny ar waith ar lefel ddisgyblaethol.

Proses

Cam cyntaf y broses o lunio'r cynllun hwn oedd i sefydliadau ymateb i ffurflen cynllunio pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol wrth y prifysgolion am lefel y ddarpariaeth, capasiti staffio a niferoedd myfyrwyr. Mae'r targedau yn y cynllun hwn yn seiliedig ar y wybodaeth honno ac yn gosod nodau a blaenoriaethau am y tair blynedd nesaf a thu hwnt.

Egwyddorion a Themâu

Tra oedd y cynllun pwnc blaenorol yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth Gymraeg ar gynlluniau gradd anrhydedd, bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd yn y sefydliadau yn ystod cyfnod cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn canolbwyntio ar y nod o gynnal Addysg Uwch o'r radd flaenaf i'r myfyrwyr sy'n dewis astudio o leiaf cyfran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyriwr yn greiddiol i'r egwyddor honno.

Strwythur y Cynllun

Mae'r Cynllun Pwnc Proffesiynau Iechyd yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd at 2022/23. Ceir yma ystyriaeth lawnach o'r sector ôl-16 yn ogystal ag anghenion y gweithle. Rhoddir mwy o bwyslais ar gyd-destun polisi a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n benodol i'r maes iechyd.

Prif hanfod gradd yn y Proffesiynau Iechyd yw bodloni anghenion y claf. Mae'r cyfle i gyfathrebu a rhyngweithio gydag unigolion ar leoliadau clinigol yn rhan annatod o'r cyrsiau, a chynigir profiadau amrywiol mewn ysbytai, canolfannau meddygol cymunedol a fferyllfeydd ledled Cymru. Rhoddir cyfle i'r myfyrwyr gwblhau'r cyfnodau ar leoliad drwy gyfrwng y Gymraeg pan fo hynny'n bosibl.

Bu datblygiad sylweddol iawn yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y Proffesiynau Iechyd. Mae Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd wedi datblygu eu darpariaeth a denu nifer cynaliadwy o fyfyrwyr drwy gyfuniad o gefnogaeth gyllidol gan y Coleg Cymraeg a buddsoddiadau mewnol.

Mae proses o ddyrannu grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dibynnu ar gategori'r pwnc yn genedlaethol o fewn y Cynllun Academaidd, blaenoriaethau strategol y prifysgolion unigol a natur y gefnogaeth sy'n parhau o du'r Coleg Cymraeg, e.e. drwy'r Cynllun Staffio. Mae cyfuniad o ffactorau yn effeithio ar ddyraniad grant pynciol a pha un a yw'r prifysgolion yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd Cenedlaethol.

Adolygir ystod y ddarpariaeth a'r lleoliadau astudio yn flynyddol yn unol â meini prawf y Cynllun Academaidd – sef bod o leiaf chwe myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod o leiaf dau aelod o staff academaidd (cyfwerth amser llawn) yn

addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth deugain credyd y flwyddyn, a phedwar aelod o staff academaidd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth wyth deg credyd y flwyddyn.

Cyd-destun Llywodraeth Cymru

1) Fframwaith strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, 'Mwy na Geiriau'.

Un o egwyddorion allweddol Mwy na Geiriau yw darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'. Ystyr 'Y Cynnig Rhagweithiol' yw darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i unigolyn orfod gofyn amdano. Mae'n golygu creu newid mewn diwylliant, gan gymryd y cyfrifoldeb am dderbyn gwasanaethau cyfrwng Cymraeg oddi ar yr unigolyn gan ei osod ar ddarparwyr y gwasanaethau. O fewn y maes gofal, mae'n hollbwysig bod pob unigolyn yn cael y cyfle i gyfleu ei deimladau a'i brofiadau mwyaf personol drwy gyfrwng ei famiaith. Dim ond wrth sicrhau y rhoddir pob cyfle i'r unigolyn fynegi ei hun – a chael ei ddeall drwy gyfrwng yr iaith a ddewisa – y gellir trefnu'r gofal, y gefnogaeth a'r gwasanaeth priodol ar ei gyfer.

2) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn rhestru saith o nodau ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Mae un o'r nodau hyn yn anelu at sicrhau 'Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

3) Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru

Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru sy'n dod â'r hawliau sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn fyw i bobl hŷn yng Nghymru. Yn y Datganiad, eglurir bod gan bobl hŷn yr hawl i ddefnyddio'r iaith sydd orau ganddynt i gyfathrebu. Pan fo siaradwyr Cymraeg yn dymuno ymgysylltu â gwasanaethau iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg, dylai fod ganddynt yr hawl i wneud hynny.

4) Deddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant

Ceir nifer o ddarpariaethau deddfwriaethol megis Deddf Plant 1989 a 2004 yn diogelu hawliau plant. Mae hawliau ieithyddol plant yn cael eu cryfhau gan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n rhoi effaith bellach yng Nghymru i Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'r Confensiwn yn diogelu hawliau plant i ddefnyddio eu hiaith eu hunain.

5) Gofal Iechyd Darbodus

Mae'r rhwystr iaith sy'n bodoli rhwng siaradwyr Cymraeg a darparwyr gwasanaethau yn achosi anawsterau clir wrth ddarganfod anghenion pobl. Wrth gyflwyno gwasanaeth cyfrwng Cymraeg caiff y rhwystr hwn ei ddileu. Bydd hyn yn helpu darparwyr gwasanaethau i fodloni egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus, sef 'peidio â gwneud niwed' a 'chynnal yr ymyriad lleiaf sy'n ofynnol'.

Safonau'r Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol er mwyn cyflwyno dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau ymddygiad ar y Gymraeg. Ar 1 Ebrill 2018 caiff Cynllun Iaith Gymraeg cyfredol y prifysgolion eu disodli gan Safonau'r Gymraeg. Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau yn golygu na ddylai prifysgolion drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac y dylent hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. O ganlyniad

i'r safonau hyn a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018 ymlaen, bydd gan fyfyrwyr hawl i gael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg ac i sefyll arholiadau ac asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n briodol nodi'r newidiadau hyn wrth drafod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn prifysgolion Cymru.

Y Proffesiynau Iechyd

Mae amrediad eang o broffesiynau o fewn y maes hwn ond byddwn yn canolbwyntio ar y proffesiynau hynny sy'n cynnig rhywfaint o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn ein prifysgolion yn y cynllun pwnc hwn. Mae'n bwysig nodi bod y cyrsiau sy'n cael eu hadnabod fel proffesiynau perthynol i iechyd (*Allied Health Professions*) ac sy'n cynnwys radiograffeg diagnostic, therapi galwedigaethol, ymarfer gofal llawdriniaethol, ffisiotherapi a therapi lleferydd ac iaith, i gyd yn cael eu hail-ddilysu ar hyn o bryd. Mae'n bosibl felly y bydd newidiadau yn cael eu cyflwyno i'r cwricwlwm yn y meysydd hynny erbyn 2019/20. Mae amrediad o gyrff sy'n rheoleiddio a/neu'n achredu cyrsiau yn y meysydd hyn, ac mae'n allweddol cydweithio'n agos gyda nhw er mwyn sicrhau lle priodol i'r Gymraeg.

Fferylliaeth

Ar hyn o bryd dim ond Prifysgol Caerdydd sy'n cynnig cwrs gradd mewn Fferylliaeth (MPharm) yng Nghymru. Er hynny, mae trefniadau ar y gweill i sefydlu ysgol Fferylliaeth ym Mhrifysgol Abertawe o fewn y blynyddoedd nesaf.

Cyngor Fferyllol Cyffredinol (General Pharmaceutical Council-GPhC)

Dyma gorff proffesiynol Fferylliaeth ac mae'n weithredol o ran cynnal safonau addysg ac ymarfer y proffesiwn. Mae eu prif swyddogaethau yn cynnwys:

- cymeradwyo cymwysterau ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol ac achredu darparwyr addysg a hyfforddiant;
- cynnal cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd;
- pennu safonau ymddygiad, moeseg, hyfedredd, addysg a hyfforddiant, a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP);
- sefydlu a hyrwyddo safonau ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol mewn fferyllfeydd cofrestredig;
- sefydlu gofynion addasrwydd i ymarfer, ac ymdrin yn deg ac yn gymesur â chwynion a phryderon.

Mae trefniadau ar y gweill i newid y radd o fewn y pum mlynedd nesaf. Ar hyn o bryd mae cwrs gradd mewn Fferylliaeth yn gwrs pedair blynedd gyda chwrs blwyddyn cyn-cofrestru i ddilyn. Y bwriad yw uno'r cwrs gradd a'r cwrs cyn-cofrestru i greu cwrs pum mlynedd a fydd yn galluogi myfyrwyr i gymhwyso fel fferyllwyr.

Therapi Lleferydd ac Iaith

Ar hyn o bryd dim ond Prifysgol Metropolitan Caerdydd sy'n cynnig cwrs gradd mewn therapi lleferydd ac iaith (BSc Anrhy) yng Nghymru. Mae therapyddion lleferydd ac iaith yn gweithio gyda phobl a bob oedran ac anghenion lleferydd ac iaith, ynghyd â phobl ag anawsterau cyfathrebu ac anhwylderau llyncu. Cwrs pedair blynedd ydyw ar hyn o bryd a achredir gan Goleg Brenhinol Therapyddion Iaith a Lleferydd. Mae cynlluniau ar y gweill fodd bynnag i newid hyd y cwrs i dair blynedd o fis Medi 2018 ymlaen. Er mwyn ymarfer, mae'n rhaid cofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC). Mae'r corff hwn yn cadw cofrestr o ymarferwyr iechyd sy'n cyrraedd eu safonau o ran hyfforddi, sgiliau proffesiynol, ymddygiad ac iechyd. Mae dwy swydd Hyrwyddwr Addysg Ymarferol wedi eu sefydlu er mwyn cefnogi myfyrwyr ar leoliadau ledled Cymru, a bydd hyn yn cryfhau'r elfen Gymreig o fewn y cwrs. Mae llawlyfrau a phortffolio Cymraeg wedi eu datblygu i'r perwyl hwn yn ogystal. Mae cyllid ar gael i fyfyrwyr i astudio yng Nghymru, ac o dderbyn hwnnw maent yn ymrwymo i weithio yng Nghymru am ddwy flynedd.

Coleg Brenhinol Therapyddion Lleferydd ac Iaith

Nod y corff hwn yw cefnogi Therapyddion Lleferydd ac laith er mwyn sicrhau eu bod yn medru darparu gwasanaeth o ansawdd i'r rhai sydd ag anghenion cyfathrebu a llyncu. Mae'r corff hwn yn gosod maes llafur y cwrs ac yn pennu'r safonau.

Ffisiotherapi

Mae ffisiotherapyddion yn asesu ac yn trin pobl y mae anaf, salwch neu henaint yn cyfyngu ar eu symudiadau. Mae agweddau pwysig ar y gwaith yn cynnwys hybu iechyd, adferiad a thriniaeth, a rhoi cyngor arbenigol i atal problemau iechyd.

Er mwyn ymarfer ffisiotherapi yn y Deyrnas Unedig, mae'n rhaid cofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC). I gofrestru, mae angen cwblhau gradd neu gymhwyster ôl-raddedig sy'n cael ei gydnabod gan yr HCPC.

I fod yn ffisiotherapydd siartredig, mae'n rhaid cofrestru gyda'r HCPC a bod yn berchen ar gymhwyster ffisiotherapi sy'n cael ei gydnabod gan y Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi (CSP).

Mae cyrsiau gradd yn cynnwys 1,000 awr o ymarfer clinigol dan oruchwyliaeth, dros bump neu chwe lleoliad gwaith dros dair blynedd fel arfer. Mae Prifysgol Caerdydd yn datblygu darpariaeth ffisiotherapi cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.

Therapi Galwedigaethol

Mae therapyddion galwedigaethol yn helpu pobl â phroblemau iechyd corfforol neu feddyliol, neu anableddau dysgu. Eu nod yw gwella annibyniaeth ac ansawdd bywyd eu cleientiaid, a hynny yn y cartref ac yn eu bywydau gwaith a chymdeithasol. Maent yn asesu anghenion, yn cynllunio gweithgareddau a threfniadau ymarferol er mwyn helpu pobl i ddelio â phroblemau a'u goresgyn. Y llwybr arferol i gymhwyso fel therapydd galwedigaethol yw trwy radd BSc mewn therapi galwedigaethol. Mae cyrsiau fel arfer yn cymryd tair blynedd i'w cwblhau yn llawn amser. Mae'n rhaid i bob cwrs gael ei gymeradwyo gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC). Mae Prifysgol Caerdydd yn treialu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar y cwrs therapi galwedigaethol ar hyn o bryd.

Radiograffeg Ddiagnostig

Mae radiograffwyr diagnostig yn defnyddio amrywiaeth o offer er mwyn cynhyrchu delweddau ansawdd uchel o'r corff. Mae'r rhain yn helpu i wneud diagnosis o glefydau ac anafiadau. Mae radiograffwyr diagnostig yn defnyddio technolegau cymhleth, yn cynnwys pelydrau X, magnetedd ac uwchsain. Maent yn cynhyrchu delweddau trwy ddefnyddio amrywiaeth o dechnolegau cymhleth, yn dibynnu ar y sefyllfa a'r math o archwiliad y mae angen iddynt ei wneud. Mae'r offer yn aml yn gyfrifiadurol a'r radiograffydd diagnostig sy'n gyfrifol am gywirdeb technegol y ddelwedd. I fod yn radiograffydd diagnostig, fel arfer mae angen gwneud gradd mewn Radiograffeg Ddiagnostig a chofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC). Mae Prifysgol Bangor yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg o 40 credyd y flwyddyn ar hyn o bryd.

Ymarfer Gofal Llawdriniaethol

Mae ymarferwyr gofal llawdriniaethol yn helpu anesthetyddion a llawfeddygon, ac yn gofalu am gleifion yn ystod llawdriniaeth. Maent yn paratoi cleifion ar gyfer llawdriniaeth, yn archwilio monitorau a chyfarpar arall yn ystod llawdriniaeth, ac yn cefnogi'r cleifion wrth wella. I fod yn ymarferwr gofal llawdriniaethol, mae angen cwblhau Diploma Addysg Uwch (DipHE) mewn Ymarfer Gofal Llawdriniaethol, a chofrestru gyda Chyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC). Mae Prifysgol Caerdydd yn eiddgar i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y maes hwn ac yn medru cynnig lleoliadau cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.

Deintyddiaeth

Mae deintyddion yn gwneud diagnosis o bydredd dannedd a chlefyd y deintgig, yn eu trin ac yn eu hatal. I fod yn ddeintydd, fel arfer mae angen cwblhau cwrs gradd pum mlynedd mewn Deintyddiaeth. Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (*General Dental Council*) yw'r rheoleiddiwr yn y maes hwn a phrif bwrpas y corff yw amddiffyn diogelwch cleifion ac i gynnal hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau deintyddol. I gyflawni hyn, maent yn cofrestru gweithwyr deintyddol proffesiynol cymwysedig, yn gosod safonau ar gyfer y tîm deintyddol, ac yn gweithio i sicrhau ansawdd addysg ddeintyddol.

Prifysgol Caerdydd yw'r unig brifysgol yng Nghymru sy'n cynnig gradd BDS mewn Deintyddiaeth. Yn ôl canfyddiadau astudiaeth dichonolrwydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae Ysgol Ddeintyddiaeth Caerdydd yn eiddgar i gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae diddordeb gan fyfyrwyr yr ysgol i gynnal eu sgiliau iaith Gymraeg ac i gyfathrebu'n naturiol yn y Gymraeg gyda chleifion. Mae'r astudiaeth yn argymhell bod yr ysgol yn mynd ati i sicrhau tiwtor personol ar gyfer y myfyrwyr ac i sicrhau isafswm o bum credyd y flwyddyn. Argymhellir bod yr ysgol hefyd yn trefnu lleoliadau clinigol lle byddai modd sicrhau defnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud â deintyddion mewn clinigau a'u cleifion. Mae'r adroddiad hefyd yn awgrymu y dylai'r ysgol ddatblygu cynllun recriwtio penodol.

Cymdeithion Meddygol (*Physicians Associate*)

Mae cymdeithion meddygol yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n cynorthwyo meddygon i wneud diagnosis a rheoli triniaeth cleifion. Y Diploma Ôl-raddedig Astudiaethau Cydymaith Meddygol ym Mhrifysgol Abertawe yw un o'r cyrsiau cyntaf o'i fath yng Nghymru. Mae'r cwrs wedi ei ddatblygu fel menter ar y cyd rhwng Ysgol Feddygaeth a Choleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd Prifysgol Abertawe, sy'n ddwy flynedd o hyd ac yn arwain at dystysgrif genedlaethol i ddechrau gweithio fel cydymaith meddygol.

Mae'r myfyrwyr yn treulio'r rhan fwyaf o'r flwyddyn gyntaf yn cyflawni sesiynau damcaniaethol ac ymarferol, gydag ychydig o brofiad clinigol cynnar o'r byd gwaith. Treulir yr ail flwyddyn yn bennaf ar leoliadau clinigol, gyda myfyrwyr yn cymhwyso wrth ofalu am gleifion dan oruchwyliaeth mentoriaid clinigol cymwys.

Sefyllfa Gyfredol (2016/17)¹			
Sefydliad Addysg Uwch	Darpariaeth	Staff	Myfyrwyr
Prifysgol Caerdydd Fferylliaeth	Mae modd astudio rhywfaint trwy gyfrwng y Gymraeg.	Mae 2 aelod o staff (CALI) yn siarad Cymraeg yn yr adran. Mae 1 (CALI) aelod o staff yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
Prifysgol y Metropolitan Caerdydd Therapi Lleferydd ac Iaith	Mae modd astudio rhywfaint trwy gyfrwng y Gymraeg.	Mae 2 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg. Mae 1 aelod o staff yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Mae 23 o fyfyrwyr ar draws yr ysgol yn siarad Cymraeg. Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
Prifysgol Bangor Radiograffeg Diagnostig	O leiaf 40 credyd y flwyddyn.	Mae 5 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg yn yr Ysgol Gwyddorau Gofal a Iechyd. Mae 5 aelod o staff yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Mae 12 o fyfyrwyr ar draws yr ysgol yn medru siarad Cymraeg. Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

¹ Data gan y sefydliadau

Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol

Profiad Myfyrwyr

Cynigir amrediad o brofiadau i fyfyrwyr Fferylliaeth ym Mhrifysgol Caerdydd gan gynnwys lleoliadau clinigol yn y byrddau iechyd ledled Cymru. Rhwir cyfle i'r myfyrwyr elwa o amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys cyfnodau yn y gymuned ac ym mhedwaredd flwyddyn y cwrs, caiff y myfyrwyr fynd ar leoliad o'u dewis hwy. Gwneir pob ymdrech i'r myfyrwyr sy'n dymuno hynny i gael goruwchswylwyr addysg Cymraeg eu hiaith tra ar leoliad.

Bydd yr ysgol yn cyflwyno cynllun peilot ym mis Hydref 2018 i alluogi myfyrwyr sy'n astudio 'Sgiliau Cyfathrebu Clinigol' i gael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg. Y gobaith yw y bydd hynny'n cael ei brif-ffrydio o hynny ymlaen.

Mae myfyrwyr therapi iaith a lleferydd yn mynd ar saith leoliad gwahanol ledled Cymru yn ystod y cwrs. Gwneir pob ymdrech i sicrhau tiwtor personol cyfrwng Cymraeg i bawb sy'n dymuno hynny.

Cymdeithion Meddygol

Rhwr cyfleoedd i fyfyrwyr:

1. Datblygu sgiliau clinigol cymwys
2. Cymhwyso o fewn lleoliad ymarfer
3. Myfyrio ynghylch ymarfer i adnabod eu hanghenion dysgu personol
4. Datblygu sgiliau rhesymu clinigol
5. Datblygu ystod o sgiliau ymarferol
6. Adnabod yn ymarferol yr egwyddorion, tybiaethau, credoau a damcaniaethau sy'n llunio'r ymarfer
7. Gweithio'n effeithiol gyda chleifion a, lle bo'n briodol, gyda gofalwyr
8. Gweithio â dealltwriaeth glir o derfynau eu gwybodaeth a'u sgiliau.

Mae myfyrwyr Ffisiotherapi yn mynd dros Gymru gyfan ar eu lleoliadau. Mae'n bosibl i'r myfyrwyr sydd ar y cwrs therapi galwedigaethol fynd ar leoliadau dros dde a gorllewin Cymru. Mae dau diwtor personol yn yr adran Therapi Galwedigaethol yn medru'r Gymraeg ac mae un yn arwain ar addysgu astudiaethau achos drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ail flwyddyn.

<p>Darlithwyr</p>	<p>Mae'r nifer o ddarlithwyr sy'n darlithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y maes Fferylliaeth ym Mhrifysgol Caerdydd yn cynyddu wrth i'r ddarpariaeth ddatblygu. Nid oes darpariaeth Gymraeg ar y cyrsiau ôl-radd.</p> <p>Mae hyder rhai darlithwyr i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y pynciau lechyd yn medru bod yn faen tramgwydd. Mae siaradwyr Cymraeg o fewn yr adrannau sy'n medru'r iaith ond nid ydynt yn ddigon hyderus i'w defnyddio yn y gweithle.</p> <p>Mae angen ariannu mwy o fyfyrwyr ôl-radd er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o ddarlithwyr yn gyffredinol yn y meysydd hyn ar gyfer y dyfodol.</p>
<p>Cwricwlwm</p>	<p>Mae trefniadau ar y gweill i newid y radd Fferylliaeth o fewn y pum mlynedd nesaf. Ar hyn o bryd, mae cwrs gradd mewn Fferylliaeth yn gwrs pedair blynedd gyda chwrs blwyddyn cyn-cofrestru i ddilyn. Y bwriad yw uno'r cwrs gradd a'r cwrs cyn-cofrestru er mwyn creu cwrs pum mlynedd a fydd yn galluogi myfyrwyr i gymhwyso fel fferyllwyr ar y diwedd.</p> <p>Mae pob cwrs yn y meysydd lechyd hyn yn sicrhau bod gofal sy'n canolbwyntio ar y claf yn ganolog i'r dysgu. Mae'r cyrsiau yn cynnig cyfleoedd i ddysgu drwy sgiliau damcaniaethol ac ymarferol. Mae dysgu ar leoliad yn hanfodol, oherwydd bod hynny'n paratoi'r myfyrwyr ar gyfer ymarfer ar ôl cofrestru.</p> <p>Nod y cyrsiau lechyd yw rhoi cyfleoedd i'r myfyrwyr ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau deallusol, sgiliau ymarferol a sgiliau personol: mae pob un ohonynt yn angenrheidiol ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol yn y sector iechyd.</p> <p>Mae'r Ysgol Gwyddorau Iechyd ym Mhrifysgol Caerdydd yn cynnig cyrsiau cyn-cofrestru a gydnabyddir gan Gyngor Proffesiynau Gofal ac Iechyd y DU ym meysydd therapi galwedigaethol, ymarfer gofal llawdriniaethol, ffisiotherapi, a radiograffeg ddiagnostig. Mae hyn oll yn cyfrannu at amgylchedd rhyngddisgyblaethol fywiog lle y ceir cyfleoedd i ddysgu ar y cyd ac addysgu'n rhyng-broffesiynol.</p>

	Mae pob myfyriwr sydd ar y cwrs therapi lleferydd ac iaith ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd yn dilyn modiwl ar 'Ymwybyddiaeth iaith' ym mlwyddyn un.
Canlyniadau Myfyrwyr	Mae arolygon cyflogaeth i raddedigion yn y maes iechyd yng Nghymru yn gadarnhaol iawn. Mae 100% o raddedigion y cwrs Fferylliaeth ym Mhrifysgol Caerdydd, er enghraifft, mewn swyddi proffesiynol neu swyddi rheoli chwe mis ar ôl graddio. Ymhellach mae 100% o fyfyrwyr Radiograffeg Prifysgol Bangor yn mynd ymlaen i fyd gwaith. Yn wir, mae'r ystadegau hyn yn cael eu hadlewyrchu ar draws y proffesiynau iechyd.
Adnoddau	<p>Fferylliaeth Mae Canolfan Addysg Broffesiynol Cymru wedi datblygu model rhithiol sy'n cael ei ddefnyddio fel rhan o asesiad sgiliau cyfathrebu ar y cwrs Fferylliaeth i bawb sy'n graddio. Ar hyn o bryd, nid yw'r adnodd hwn ar gael yn y Gymraeg. Pe byddai'r adnodd hwn yn cael ei gyfieithu hwyrach y byddai modd ei ddefnyddio mewn modiwlau sgiliau cyfathrebu ar draws y cyrsiau Iechyd a Gofal yn gyffredinol.</p> <p>Therapi Lleferydd ac iaith 1) Llawlyfr yn cyflwyno anatomi a ffisioleg sylfaenol i'r myfyrwyr 2) Llawlyfr yn cyflwyno dulliau ymchwil, holiadur, cyfweiliadau, dadansoddi data (meintiol ac ansoddol) 3) Cyfieithu adnoddau therapi ac asesu o'r Saesneg 4) Termiadur- bathu geirfa a therminoleg ar gyfer y maes 5) Fideo ar y cyd â phroffesiynau iechyd eraill er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd cyfathrebu cyfrwng Cymraeg, yn enwedig yn y maes Dementia, Strôc, Parkinson's, Gofal Plant.</p> <p>Ffisiotherapi/Therapi Galwedigaethol/Radiograffeg Diagnostig/Ymarfer Gofal Lawdriniaethol/Cymdeithion Meddygol 1) DVD fyddai'n codi ymwybyddiaeth ac yn dwysáu dealltwriaeth pobl ifainc o'r proffesiynau iechyd yn gyffredinol. 2) Cyfres o lyfrau electronig ar amrywiaeth o bynciau megis Moeseg, Adfyfrio a Chyfathrebu a fyddai'n berthnasol i'r meysydd Iechyd i gyd.</p>

	<p>3) Adnodd fyddai'n canolbwyntio ar adrodd storïau'r claf. Byddai adnodd o'r fath yn gaffaeliad mawr ar draws y pynciau iechyd.</p> <p>4) Rhannu a mapio'r adnoddau sy'n bodoli eisoes gan adnabod hawlfraint a'u rhannu ymysg y sefydliadau gan sicrhau eu bod yn eistedd ar lwyfan sy'n hygyrch i bawb ac hefyd ar gael yn ddigidol.</p>
<p>Cyflogadwyedd (gan gynnwys Galw gan Gyflogwyr)</p>	<p>I'r darpar ymarferwyr yn y maes lechyd, mae astudio'r cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn fanteisiol wrth baratoi ar gyfer y gweithle. Mae galw gan fyrddau iechyd ledled Cymru am ymarferwyr sy'n medru'r Gymraeg. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wrth recriwtio, er enghraifft, yn cydnabod Tystysgrif Sgiliau Iaith Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym mhorthfolio myfyrwyr fel tystiolaeth o'u gallu i gyfathrebu â chleifion. Mae'r safonau iaith sydd bellach wedi eu gosod ar y sector iechyd gan y Comisiynydd Iaith yn debygol o gynyddu'r galw am wasanaethau Cymraeg ac yn golygu y bydd unigolion yng Nghymru yn disgwyl medru derbyn gwasanaethau Cymraeg. Mae'r angen am siaradwyr Cymraeg yn y maes hwn yn glir.</p> <p>Fferylliaeth</p> <p>Mae gradd mewn Fferylliaeth yn arfogi myfyrwyr â gwybodaeth a sgiliau sydd eu hangen i gychwyn ar yrfa fel fferylllydd.</p> <p>Mae fferyllwyr yn arbenigwyr ym maes cyffuriau a meddyginiaethau, ac mae llawer bellach yn gymwys i ragnodi meddyginiaethau yn annibynnol o'r meddyg. Maent yn medru cymryd rhan mewn unrhyw agwedd ar baratoi cyffuriau/meddyginiaethau a'u darparu i gleifion.</p> <p>Wedi cwblhau'r radd yn llwyddiannus, mae myfyrwyr yn ymgymryd â blwyddyn cyn-cofrestru ar hyfforddiant cyn sefyll asesiad cofrestru Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol i gofrestru fel fferylllydd. Fel fferylllydd cymwysedig, mae dewis eang o opsiynau gyrfa ar gael sy'n cynnwys gweithio mewn ysbyty, mewn gofal sylfaenol neu ymarfer cymunedol, diwydiant neu ymchwil yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae modd gweithio i fanwerthwyr gofal iechyd megis <i>Boots</i> ac mewn mentrau gwyddonol yn ogystal. Mae natur y gwaith yn medru newid yn unol â gofynion a blaenoriaethau'r gwasanaeth iechyd.</p>

Fel y nodwyd eisoes, mae 100% o raddedigion y cwrs Fferylliaeth ym Mhrifysgol Caerdydd mewn swyddi proffesiynol neu reoli chwe mis wedi graddio.

Mae galw cynyddol am sgiliau Cymraeg yn y maes hwn gan fod disgwyl i ymarferwyr dreulio mwy a mwy o amser yn trin cleifion wyneb yn wyneb. Er mwyn gweithio fel fferylllydd ym maes plant/strôc/dementia ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae'r Gymraeg yn hanfodol. Mae galw am sgiliau Cymraeg yn y sector gyhoeddus ond nid gymaint yn y sector breifat ar hyn o bryd.

Yn ôl Gyrfa Cymru, disgwylir y bydd y galw am fferyllwyr yn cynyddu ledled y Deyrnas Unedig yn y dyfodol.

Therapi Lleferydd ac Iaith

Mae llawer o'r gwaith yn cael ei wneud gyda phlant, yn delio â phroblemau fel atal dweud sy'n gallu achosi i bobl ifanc gilio rhag sefyllfaoedd cymdeithasol. Mae'n bosibl gweithio gyda phlant cyn oed ysgol, er enghraifft, os nad yw eu sgiliau iaith yn datblygu fel y dylent, neu os nad ydynt wedi dechrau siarad o gwbl. Mae rhai ymarferwyr yng Nghymru yn cael eu cyflogi gan yr awdurdodau lleol gan weithio gydag athrawon i asesu a datblygu rhaglenni personol ar gyfer y plant. Disgwylir cynydd dros y blynyddoedd nesaf yn y galw am therapyddion lleferydd ac iaith sy'n gweithio gyda phlant.

Mae'n bosibl hefyd i fod yn gyfrifol am hyfforddi pobl sydd â chysylltiad â'r claf neu gyfrifoldeb gofal, fel athrawon mewn ysgolion a cholegau, staff gofal mewn cartrefi preswyl, rhieni a staff ysbyty. Mae'r rôl addysgol ac ataliol hon yn dod yn fwy a mwy pwysig. Mae Gyrfa Cymru yn nodi bod y gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg o fantais wrth chwilio am waith yn y maes yma yng Nghymru.

Ffisiotherapi

Mae ffisiotherapyddion yn trin amrywiaeth o broblemau'n ymwneud â systemau cyhyrsgerbydol (meinweoedd, cymalau ac esgyrn), niwrogryhyrol (yr ymennydd a'r system nerfol) a chardiofasgwlaidd (y galon a'r ysgyfaint).

Mae modd gweithio gydag amrywiaeth fawr o gleifion, a hynny mewn sawl lleoliad:

- Clinigau cleifion allanol: trin pobl â phroblemau'n ymwneud â'r asgwrn cefn neu'r cymalau, neu gleifion sy'n gwella ar ôl damwain.
- Ysbytai: gan gynnwys unedau gofal dwys (gall ffisiotherapi i'r frest fod yn hanfodol ar gyfer cadw cleifion i anadlu ar ôl llawdriniaeth).
- Ysgolion: gweithio gyda phlant sydd â phroblemau symud, anawsterau cydsymud a chyflyrau fel parlys yr ymennydd.
- Gweithleoedd: helpu staff i osgoi a dod dros anafiadau a damweiniau.
- Oedolion hŷn: gweithio gyda phobl a all fod yn gwella ar ôl cael strôc neu gwympo, neu bobl sydd â chlefyd Parkinson.
- Anableddau dysgu: cynyddu annibyniaeth a helpu pobl i gyflawni eu potensial.
- Iechyd menywod: rhoi cyngor ar ymarfer corff ac osgo mewn gofal cyn-geni a gofal ôl-eni.
- Canolfannau chwaraeon a chymunedol: atal a thrin problemau trwy ddisbarthiadau ymarfer corff a gofal y cefn.

Therapi Galwedigaethol

Mae cyflogwyr yn y maes hwn yn cynnwys y GIG, adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, ysgolion, cartrefi gofal preswyl, sefydliadau gwirfoddol, elusennau, cwmnïau gofal iechyd preifat a chynhyrchwyr offer.

Ceir cyfleoedd i therapyddion galwedigaethol weithio'n annibynnol mewn practis preifat yn ogystal.

Radiograffeg Diagnostig

Y GIG a chwmnïau gofal iechyd preifat sy'n cyflogi'r mwyafrif o radiograffwyr diagnostig. Mae'r lluoedd arfog yn cyflogi rhai radiograffwyr diagnostig hefyd, ac mae cyfleoedd i weithio mewn gofal iechyd sylfaenol, ym myd addysg fel darlithwyr prifysgol, ac ym myd diwydiant, hyfforddi, gwerthu neu ymchwil.

Mae prinder cenedlaethol o radiograffwyr ac mae'r galw amdanynt yn debygol o gynyddu'n sylweddol yn y dyfodol agos.

Ymarfer Gofal Llawdriniaethol

Mae'r cyflogwyr yn y maes hwn yn cynnwys y GIG ac ysbytai preifat, a'r lluoedd arfog yn ogystal. Yn ôl gwefan Gyrfa Cymru, bydd galw cynyddol am weithwyr yn y proffesiwn hwn yng Nghymru ac mae prinder ymarferwyr yn Lloegr ar hyn o bryd.

Deintyddiaeth

Mae'r rhan fwyaf o ddeintyddion yn hunangyflogedig mewn practis cyffredinol, gan ddarparu gofal dan y GIG neu'n breifat.

Yn ôl Gyrfa Cymru, disgwylir i'r galw am ddeintyddion fod yn uchel ar gyfer y dyfodol. Yn wir, disgwylir 20764 o agoriadau swyddi yn y proffesiwn hwn erbyn 2024.

Cymdeithion Meddygol

Graddedigion sydd wedi hyfforddi ar lefel ôl-radd yn y maes yw cymdeithion meddygol. Maent yn gweithio law yn llaw â meddygon. Maent wedi eu hyfforddi i gyflawni amrywiol dasgau megis cymryd hanes meddygol cleifion, archwilio cleifion a dadansoddi canlyniadau profion. Maent hefyd yn hyrwyddo ffyrdd o gadw'n iach ymysg cleifion.

Mae'r rhan fwyaf o gymdeithion meddygol yn gweithio o fewn meddygfeydd teulu ac o fewn meddygaeth argyfwng a dwys ar hyn o bryd.

Mae'r galw am y swydd hon yn debygol o gynyddu'n eithriadol yn y dyfodol agos.

<p>Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)</p>	<p>Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr ar y cyrsiau iechyd yn dilyn llwybr traddodiadol o'r ysgol neu goleg Addysg Bellach i astudio ar lefel gradd.</p> <p>Rhagwelir y bydd angen ymgynghori ymhellach ag ysgolion a cholegau Addysg Bellach er mwyn sefydlu galw a dilyniant, a hefyd i amlinellu sut mae hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg ymhellach. Mae digwyddiadau llwyddiannus yng Ngholeg Gŵyr ac yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro, gan gynnwys Coleg Menai, eisoes wedi digwydd er mwyn hyrwyddo'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y meysydd iechyd yng Nghymru.</p> <p>Mae'n bwysig nodi y bydd nifer y sefydliadau sy'n cynnig y cwrs fferylliaeth o fewn y Deyrnas Unedig yn cynyddu o 15 i 34 yn y dyfodol agos felly bydd mwy o gystadleuaeth rhwng sefydliadau i ddenu myfyrwyr.</p> <p>Mae darlithwyr therapi lleferydd ac iaith, ffisiotherapi, therapi galwedigaethol, radiograffeg diagnostig, ymarfer gofal lawdriniaethol a chymdeithion meddygol yn credu bod angen dybryd i godi proffil y swyddi hyn ymysg disgyblion ysgol ac o fewn ein colegau. Mae diffyg ymwybyddiaeth o'r swyddi ymysg disgyblion a myfyrwyr. Mae angen iddynt ddeall bod sgiliau Cymraeg yn y maes yn mynd i gyfoethogi eu cyflogadwyedd. Yn draddodiadol mae disgyblion a myfyrwyr o'r gogledd yn dueddol o fynd i Fanceinion i astudio'r cwrs therapi lleferydd ac iaith ac mae angen hyrwyddo'r ddarpariaeth a gynigir gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd. Yn ddelfrydol mae angen denu mwy o fechgyn a phobl o gefndir amlddiwylliannol i'r proffesiynau iechyd er mwyn adlewyrchu proffil y cleientiaid yn well.</p>
---	--

Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol			
Nod gweithredu	Targedau blwyddyn (2017/18)	Targedau 3 mlynedd (2019/20)	Targedau 5 mlynedd (2021/22)
1. Darpariaeth	Cynnig ystod o ddarpariaeth ddwyieithog gan gynnwys o leiaf 40 credyd yn y Gymraeg.	Cynnig ystod o ddarpariaeth ddwyieithog gan gynnwys o leiaf 40 credyd yn y Gymraeg.	Cynnig ystod o ddarpariaeth ddwyieithog gan gynnwys o leiaf 40 credyd yn y Gymraeg.
2. Cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd	90 o fyfyrwyr	120 o fyfyrwyr	150 o fyfyrwyr
3. Cynyddu'r nifer o staff sy'n addysgu yn y Gymraeg	10 aelod o staff	12 aelod o staff	14 aelod o staff
4. Dilyniant	Cynyddu'r ddarpariaeth Lefel A/galwedigaethol cyfrwng Cymraeg mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg, Cymdeithaseg, Seicoleg, Gwyddorau Meddygol a Gofal ac lechyd.	Cynyddu'r ddarpariaeth Lefel A/galwedigaethol cyfrwng Cymraeg mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg, Cymdeithaseg, Seicoleg, Gwyddorau Meddygol a Gofal ac lechyd.	Cynyddu'r ddarpariaeth Lefel A/galwedigaethol cyfrwng Cymraeg mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg, Cymdeithaseg, Seicoleg, Gwyddorau Meddygol a Gofal ac lechyd.

Datblygu'r maes: targedau sefydliadol

Sefydliad	Nod gweithredu	Targedau blwyddyn (2017/18)	Targedau 3 mlynedd (2019/20)	Targedau 5 mlynedd (2021/22)
Prifysgol Caerdydd	Darpariaeth	Hyd at 40 credyd ym mhob blwyddyn mewn Fferylliaeth. Rhywfaint o ddarpariaeth mewn Ffisiotherapi a Therapi Galwedigaethol.	O leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn mewn Fferylliaeth, Ffisiotherapi. Rhywfaint o ddarpariaeth mewn Therapi Galwedigaethol a Deintyddiaeth.	O leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn mewn Fferylliaeth, Ffisiotherapi a Therapi Galwedigaethol. Rhywfaint o ddarpariaeth mewn Deintyddiaeth.
	Myfyrwyr	O leiaf 10 yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 15 yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 20 yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Profiad Myfyrwyr	Datblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy fentora.	Datblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy fentora.	Datblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy fentora.
	Staff	3 aelod o staff	5 aelod o staff	6 aelod o staff
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	Darpariaeth	Rhywfaint o ddarpariaeth mewn therapi iaith a lleferydd.	O leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn mewn therapi iaith a lleferydd.	O leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn mewn therapi iaith a lleferydd.
	Myfyrwyr	O leiaf 10 yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 15 yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 20 yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
	Profiad Myfyrwyr	Datblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy fentora.	Datblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy fentora.	Datblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy fentora.
	Staff	1 aelod o staff	1 aelod o staff	2 aelod o staff

Prifysgol Bangor	Darpariaeth	O leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn	O leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn	O leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn
	Myfyrwyr	O leiaf 10 yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 15 yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 20 yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
	Profiad Myfyrwyr	Datblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy fentora.	Datblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy fentora.	Datblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy fentora.
	Staff	5 aelod o staff	5 aelod o staff	6 aelod o staff